cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund



# Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

# Cymryd Cyfandaliad pan fyddwch chi’n Ymddeol

Ebrill 2026

# Tudalen Cynnwys

Rhagarweiniad .......... 3

Sut mae'n gweithio? .......... 3

Beth os ydych chi wedi talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY)? .......... 4

Allwch chi gymryd eich potyn CGY mewnol cyfan fel cyfandaliad di-dreth? .......... 4

Beth os gwnaethoch chi dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY), cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRhY) neu brynu blynyddoedd ychwanegol? .......... 4

Pryd mae angen dewis eich cyfandaliad di-dreth? .......... 4

Fydd eich buddion goroeswyr yn lleihau? .......... 4

Enghraifft 1: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad pan nad oes unrhyw CGY .......... 5

Enghraifft 2: Cymryd eich potyn CGY mewnol cyfan fel arian parod di-dreth .......... 6

Enghraifft 3: Pan mae'ch potyn CGY mewnol yn ormod i gymryd y cyfan fel arian parod di-dreth .......... 8

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth? .......... 10

Ymwadiad .......... 10

## Rhagarweiniad

Pan fyddwch chi'n ymddeol o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), bydd eich cronfa CPLlL yn cyfrifo eich buddion safonol.  Bydd eich buddion safonol yn cynnwys:

- pensiwn blynyddol, a delir mewn 12 taliad misol cyfartal ac sy'n cynyddu i gyd-fynd â chostau byw
- chyfandaliad awtomatig, sydd fel arfer yn ddi-dreth, (os oeddech chi'n aelod o'r CPLlL ar neu cyn 31 Mawrth 2008)

Os ddaethoch chi'n aelod ar neu cyn 31 Mawrth 2008, fe fydd gennych y dewis i droi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad untro ychwanegol pan fyddwch yn ymddeol.   Mae hyn yn golygu bod modd gwneud eich cyfandaliad awtomatig yn fwy.

Os daethoch chi'n aelod ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008, fyddwch chi ddim yn cael cyfandaliad awtomatig wrth ymddeol, ond fe gewch chi ddewis troi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad untro.

## Sut mae'n gweithio?

Am bob £1 o bensiwn blynyddol rydych chi'n dewis ei ildio, byddwch yn cynyddu eich cyfandaliad o £12.

Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, y cyfandaliad mwyaf yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfandaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

Gallwch ddewis derbyn naill ai:

- eich buddion safonol (pensiwn blynyddol ac unrhyw gyfandaliad awtomatig); neu
- eich buddion uchaf (llai o bensiwn blynyddol a'r cyfandaliad uchaf a ganiateir, gan gynnwys unrhyw gyfandaliad awtomatig); neu
- ildio swm o'ch pensiwn blynyddol, sydd rhwng eich buddion safonol a'ch buddion uchaf

Mae yna enghreifftiau yn y ffeithlen hon sy'n dangos i chi sut mae hyn yn gweithio.

## Beth os ydych chi wedi talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY)?

Os gwnaethoch chi dalu CGY yn defnyddio darparwr CGY mewnol eich cronfa CPLlL, bydd gwerth eich potyn CGY yn cael ei gynnwys wrth i ni gyfrifo'r swm uchaf o ran cyfandaliad y gallwch ei gymryd.

## Allwch chi gymryd eich potyn CGY mewnol cyfan fel cyfandaliad di-dreth?

Pan fyddwch yn ymddeol, efallai y bydd modd i chi gymryd eich potyn CGY mewnol cyfan fel arian parod di-dreth. Gellir gwneud hyn pan na fydd eich potyn CGY, o'i ychwanegu at unrhyw gyfandaliad a gymerir o'ch prif fuddion CPLlL, yn mynd dros y terfynau a osodwyd gan Gyllid a Thollau EF (a eglurwyd ar **dudalen tri** y ffeithlen hon).

## Beth os gwnaethoch chi dalu cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY), cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRhY) neu brynu blynyddoedd ychwanegol?

Os gwnaethoch chi brynu pensiwn ychwanegol drwy CPY, CRhY neu flynyddoedd ychwanegol, byddwn yn cynnwys hyn wrth gyfrifo gwerth eich buddion pensiwn safonol a'ch buddion pensiwn uchaf.

## Pryd mae angen dewis eich cyfandaliad di-dreth?

Pan fyddwch chi'n ymddeol, bydd eich cronfa CPLlL yn anfon pecyn ymddeol i chi, y mae'n rhaid i chi ei lenwi cyn y gellir talu pensiwn i chi. Bydd hwn yn cynnwys eich ffigurau safonol ac uchaf. Bydd angen i chi ddewis eich cyfandaliad cyn y gellir talu eich buddion CPLlL i chi. Ar ôl i chi ei ddewis, allwch chi ddim ei newid ar ôl i'ch buddion CPLlL gael eu talu i chi.

Os hoffech chi ddewis swm sydd rhwng y buddion safonol a'r buddion uchaf, gallwch roi gwybod i ni drwy lenwi'r ffurflenni sy'n rhan o'r pecyn ymddeol.

Ni all eich cronfa CPLlL roi unrhyw gyngor ariannol i chi, felly ystyriwch geisio cyngor ariannol annibynnol pan fyddwch chi'n ymddeol, i wneud yn siŵr eich bod yn gwneud y dewis gorau i chi.

## Fydd eich buddion goroeswyr yn lleihau?

Os byddwch chi'n dewis troi rhywfaint o'ch pensiwn blynyddol yn gyfandaliad ychwanegol, ni fydd hynny'n lleihau unrhyw fuddion goroeswyr a delir i'ch gŵr, gwraig, partner sifil, partner sy'n cyd-fyw â chi neu unrhyw blant cymwys pan fyddwch chi'n marw.

## Enghraifft 1: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad pan nad oes unrhyw CGY

Pan fydd Gareth yn ymddeol, bydd ganddo bensiwn blynyddol o £10,000 a chyfandaliad di-dreth awtomatig o £24,000.

**Cam 1: Cyfrifo gwerth cyfalaf buddion y CPLlL**

120 x pensiwn blynyddol + 10 x cyfandaliad awtomatig (os oes yna un) ÷ 7 = gwerth cyfalaf buddion y CPLlL

- 120 x pensiwn blynyddol Gareth o £10,000 + 10 x cyfandaliad Gareth o £24,000 ÷ 7 = £205,714.28

Gwerth cyfalaf Buddion CPLlL Gareth yw **£205,714.28**

**Cam 2: Cyfrifo'r cyfandaliad di-dreth uchaf**

Gwerth cyfalaf x 25% = y cyfandaliad di-dreth uchaf

- £205,714.28 x 25% = £51,428.57

Y cyfandaliad di-dreth uchaf y gall Gareth ei gymryd yw **£51,428.57**

**Cam 3: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth uchaf**

Cyfandaliad di-dreth uchaf - cyfandaliad di-dreth awtomatig ÷ 12 = pensiwn blynyddol y gall Gareth ei droi'n gyfandaliad uchaf

- £51,428.57 - £24,000 ÷ 12 = £2,285.71 o bensiwn blynyddol y gall Gareth ei droi'n gyfandaliad

Pensiwn blynyddol - pensiwn blynyddol y gall Gareth ei droi'n gyfandaliad = pensiwn blynyddol is

- £10,000 - £2,285.71 = £7,714.29 o bensiwn blynyddol is

Os bydd Gareth yn cymryd y cyfandaliad di-dreth uchaf, ei bensiwn blynyddol fydd **£7,714.29**

Pan fydd Gareth yn ymddeol, ei ddewisiadau buddion safonol a buddion uchaf fydd:

| Dewis 1: buddion safonol | | Dewis 2: buddion uchaf | |
|---|---|---|---|
| Pensiwn blynyddol: | £10,000 | Pensiwn blynyddol is: | £7,714.29 |
| Cyfandaliad awtomatig: | £24,000 | Cyfandaliad uchaf: | £51,428.57 |

Mae dewis 3 hefyd ar gael i Gareth, sef dewis troi swm o'i bensiwn blynyddol yn gyfandaliad sydd rhwng dewis 1 a dewis 2. Golyga hyn y byddai'r pensiwn blynyddol yn swm rhwng £10,000 a £7,714.29. Byddai hyn yn rhoi cyfandaliad di-dreth o rhwng £24,000 a £51,428.57 iddo.

## Enghraifft 2: Cymryd eich potyn CGY mewnol cyfan fel arian parod di-dreth

Pan fydd Jim yn ymddeol, bydd ganddo'r un buddion pensiwn â Gareth, ond mae ganddo hefyd botyn CGY mewnol o £27,000 yr hoffai ei gymryd fel arian parod di-dreth.

I weld a yw'n bosib iddo gymryd ei botyn CGY cyfan fel arian parod di-dreth, byddai'n rhaid cyfrifo gwerth cyfalaf ei fuddion er mwyn canfod ei gyfandaliad di-dreth uchaf.

**Cam 1: Cyfrifo gwerth cyfalaf buddion y CPLlL**

120 x pensiwn blynyddol + 10 x cyfandaliad awtomatig (os oes yna un) + 10 x potyn CGY mewnol ÷ 7 = gwerth cyfalaf buddion y CPLlL

- 120 x pensiwn blynyddol Jim o £10,000 + 10 x cyfandaliad Jim o £24,000 + 10 x potyn CGY Jim o £27,000 ÷ 7 = £244,285.71

Gwerth cyfalaf buddion CPLlL Jim, yn cynnwys ei botyn CGY mewnol yw **£244,285.71**

**Cam 2: Cyfrifo'r cyfandaliad di-dreth uchaf**

Gwerth cyfalaf x 25% = y cyfandaliad di-dreth uchaf

- £244,285.71 x 25% = £61,071.42

Y cyfandaliad di-dreth uchaf y gall Jim ei gymryd yw **£61,071.42**

**Cam 3: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth uchaf**

Cyfandaliad di-dreth uchaf - cyfandaliad di-dreth awtomatig - potyn CGY mewnol ÷ 12 = pensiwn blynyddol y gall Jim ei droi'n gyfandaliad uchaf

- £61,071.42 - £24,000 - £27,000 ÷ 12 = £839.28 o bensiwn blynyddol y gall Jim ei droi'n gyfandaliad

Pensiwn blynyddol - pensiwn blynyddol y gall Jim ei droi'n gyfandaliad = pensiwn blynyddol is

- £10,000 - £839.28 = £9,160.72 o bensiwn blynyddol is

Os bydd Jim yn cymryd y cyfandaliad di-dreth uchaf, ei bensiwn blynyddol fydd **£9,160.72**

Dyma ddewisiadau ymddeol Jim gyda'i botyn CGY mewnol:

| **Dewis 1: buddion safonol** | |
|---|---|
| Pensiwn blynyddol: | £10,000 |
| Cyfandaliad di-dreth<br>(cyfandaliad awtomatig o £24,000 + potyn CGY mewnol o £27,000) | £51,000* |
| *Gall Jim ddewis cymryd gwerth cyfunol ei gyfandaliad awtomatig a'i botyn CGY mewnol fel arian parod di-dreth, gan ei fod yn llai nag uchafswm yr arian parod di-dreth a ganiateir, sef £61,071.42. | |

| **Dewis 2: buddion uchaf** | |
|---|---|
| Pensiwn blynyddol:<br>(pensiwn blynyddol safonol o £10,000 - pensiwn blynyddol o £839.28 sydd wedi'i droi'n gyfandaliad) | £9,160.72 |
| Cyfandaliad di-dreth uchaf<br>(cyfandaliad awtomatig o £24,000 + potyn CGY mewnol o £27,000 + cyfandaliad o £10,071.42 wedi'i greu o'r pensiwn blynyddol) | £61,071.42** |
| **Er mwyn cymryd y cyfandaliad di-dreth uchaf, bydd rhaid i Jim leihau ei bensiwn blynyddol o £839.28, er mwyn rhoi'r arian parod di-dreth ychwanegol o £10,071.42 iddo. | |

Mae dewis 3 hefyd yn dal ar gael i Jim, sef dewis troi swm o'i bensiwn blynyddol yn gyfandaliad sydd rhwng dewis 1 a dewis 2.  Golyga hyn y byddai'r pensiwn blynyddol yn swm rhwng £10,000 a £9,160.72. Byddai hyn yn rhoi cyfandaliad di-dreth o rhwng £51,000 a £61,071.42 iddo (yn cynnwys y CGY).

# Enghraifft 3: Pan mae'ch potyn CGY mewnol yn ormod i gymryd y cyfan fel arian parod di-dreth

Weithiau, gallai gwerth potyn CGY mewnol aelod fod yn rhy uchel i gymryd y cyfan fel arian parod di-dreth, gan ei fod yn fwy na'r cyfandaliad di-dreth uchaf a ganiateir. Os bydd hyn yn digwydd, gellir cynnwys y swm o CGY y caniateir ei gymryd fel arian parod di-dreth yn gyfandaliad di-dreth uchaf. Rhaid defnyddio gweddill y CGY i brynu pensiwn ychwanegol yn y CPLlL neu i brynu pensiwn, a elwir yn flwydd-dal, gyda darparwr pensiwn arall.

**Enghraifft:**

Pan fydd Susan yn ymddeol, bydd ganddi'r un gwerth pensiwn blynyddol CPLlL a chyfandaliad awtomatig â Jim, ond mae ei photyn CGY mewnol werth £43,000. Gyda'i gilydd, mae ei chyfandaliad awtomatig o £24,000 a'i photyn CGY yn (£43,000 + £24,000 = £67,000). Fe welwch chi yn yr enghraifft isod na fyddai'n cael cymryd y cyfan fel arian parod di-dreth, gan mai'r cyfandaliad di-dreth uchaf a ganiateir yw £66,785.72. Golyga hyn y byddai yna £214.28 (£67,000 - £66,785.72 = £214.28) dros ben.

**Cam 1: Cyfrifo gwerth cyfalaf buddion y CPLlL**

120 x pensiwn blynyddol + 10 x cyfandaliad awtomatig (os oes yna un) + 10 x potyn CGY mewnol ÷ 7 = gwerth cyfalaf buddion y CPLlL

- 120 x pensiwn blynyddol Susan o £10,000 + 10 x cyfandaliad Susan o £24,000 + 10 x potyn CGY Susan o £43,000 ÷ 7 = £267,142.86

Gwerth cyfalaf buddion CPLlL Susan a'i photyn CGY mewnol yw **£267,142.86**

**Cam 2: Cyfrifo'r cyfandaliad di-dreth uchaf**

Gwerth cyfalaf x 25% = cyfandaliad di-dreth uchaf

- £267,142.86 x 25% = £66,785.72

Y cyfandaliad di-dreth uchaf y gall Susan ei gymryd yw **£66,785.72**

**Cam 3: Troi pensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth uchaf**

Gan fod potyn CGY mewnol Susan (£43,000), o'i ychwanegu at ei chyfandaliad awtomatig (£24,000), yn dod i gyfanswm o £67,000, ni chaiff droi unrhyw swm o'i £10,000 o bensiwn blynyddol yn gyfandaliad di-dreth ychwanegol. Y rheswm am hyn yw ei bod eisoes wedi mynd dros derfyn ei chyfandaliad di-dreth uchaf, sef £66,785.72.

Dyma'r dewis sydd gan Susan wrth ymddeol ar ôl defnyddio'r swm dros ben yn ei photyn CGY mewnol (£214.28) i brynu pensiwn CPLlL ychwanegol:

| **Dewis:** | |
|---|---|
| Pensiwn blynyddol:<br>(pensiwn blynyddol safonol o £10,000 + pensiwn blynyddol ychwanegol o £10.71, wedi'i brynu o'r £214.28 dros ben o'i photyn CGY mewnol)*** | £10,010.71 |
| Cyfandaliad di-dreth uchaf<br>(cyfandaliad awtomatig o £24,000 + £42,785.72 o botyn CGY Susan y gall ei gymryd i fod o fewn terfyn y cyfandaliad di-dreth uchaf a ganiateir) | £66,785.72 |

***Mae'r swm dros ben o botyn CGY mewnol Susan (£214.28) wedi'i ddefnyddio i brynu £10.71 o bensiwn blynyddol ychwanegol, sydd yna'n cael ei ychwanegu at ei phensiwn blynyddol safonol o £10,000.

Cyfrifwyd y pensiwn blynyddol ychwanegol drwy ddefnyddio'r ffactorau o Adran Actiwari'r Llywodraeth. Caiff y ffactorau hyn eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r ffactorau a ddefnyddir yn dibynnu ar oedran a p'un a yw'r aelod yn penderfynu defnyddio'r pensiwn ychwanegol a brynwyd gyda'r CGY ar gyfer eu pensiwn blynyddol yn unig, neu ar gyfer eu pensiwn blynyddol ac unrhyw bensiwn goroeswyr fydd yn daladwy yn y dyfodol.

Yn yr enghraifft hon, mae Susan wedi penderfynu prynu'r pensiwn ychwanegol ar gyfer ei phensiwn blynyddol yn unig.

Bydd eich cronfa CPLlL yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch chi'n ymddeol os oes yna swm dros ben yn eich potyn CGY mewnol, a pha ddewisiadau sydd ar gael i chi.

## Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig.  Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

**Ffôn:** 01352 702875

**E-bost:** pensiynau@siryfflint.gov.uk

**Cyfeiriad:** Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

**Gwefan:** https://cronfabensiynauclwyd.org.uk

## Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

**Unbiased:**

https://unbiased.co.uk (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

**Helpwr Arian:**

https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas

Cronfa Bensiynau

# CLWYD

Pension Fund

cronfabensiynauclwyd.org.uk

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.